# REOLIADAU ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (RHESTR O SEFYDLIADAU ÔL-16 ARBENNIG ANNIBYNNOL) (CYMRU) 2020

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r Asesiad
Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
30 Tachwedd 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer cyhoeddi a chynnal y rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yng Nghymru a Lloegr, y mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i'w cyhoeddi a'u diwygio o bryd i'w gilydd. Y nod o gael rhestr gyhoeddedig o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yng Nghymru a Lloegr yw helpu i roi sicrwydd i awdurdodau lleol, sy’n gyfrifol am sicrhau lleoliadau o’r fath, y bydd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir yn y sefydliadau hynny a restrir yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o ran addysg a hyfforddiant.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Er mwyn ategu’r Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol , cyhoeddir canllawiau anstatudol ochr yn ochr â'r rheoliadau pan ddeuant i rym ym mis Ionawr 2021.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adran 56[1] o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn nodi'r gofyniad cyfreithiol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a chynnal rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi rheoliadau sy'n darparu:

a) cynnwys y rhestr;
b) gofynion y mae’n rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad yn y rhestr;
c) gofynion y mae’n rhaid cydymffurfio â hwy tra bo'r sefydliad wedi ei restru (gan gynnwys gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o'r fath);
d) dileu’r sefydliad o’r rhestr; a
e) yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r rheoliadau.

Yn unol ag adran 98 o Ddeddf 2018, mae Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn ddarostyngedig i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) - o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

[1] Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 wedi cael ei wneud, gan gychwyn adran 56 o’r Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau hyn yw gwneud yn siŵr na chaiff awdurdod lleol ond sicrhau addysg neu hyfforddiant i blentyn neu berson ifanc mewn Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol yng Nghymru neu Loegr os yw’r sefydliad wedi ei gynnwys ar y rhestr. Diffinnir Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn y Ddeddf fel sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i bobl dros oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath i bobl ag ADY. Fodd bynnag, ni all y sefydliad fod yn:

a) sefydliad o fewn y sector addysg bellach;
b) ysgol annibynnol sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru;
c) sefydliad addysgol annibynnol, sydd wedi'i gynnwys ar y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr; nac yn
d) academi ar gyfer plant a phobl ifanc 16 i 19 oed.

Y nod o gael rhestr gyhoeddedig o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yng Nghymru a Lloegr yw helpu i roi sicrwydd i awdurdodau lleol a theuluoedd y bydd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir yn y sefydliadau hynny a restrir yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc ag ADY o ran addysg a hyfforddiant. Dim ond os yw wedi ei gynnwys ar y rhestr y caniateir i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc ag ADY mewn Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol.

Er mwyn cefnogi Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol, awdurdodau lleol a phartïon eraill â diddordeb, bydd y Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn cynnwys canllawiau anstatudol a fydd yn nodi cyngor ar sut y gall Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol wneud cais i gael eu cynnwys a'u cynnal ar restr Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau anstatudol hefyd yn rhoi cyngor ar swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â’r darpariaethau a nodir yn y Rheoliadau.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 5 Mawrth 2020 a 30 Mehefin 2020 ar y Rheoliadau drafft Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach arbenigol ac asiantaethau arolygu, at yr ymgynghoriad.

Roedd cytundeb cyffredinol i gynigion yr ymgynghoriad. Ystyriwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfynwyd nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau. Fodd bynnag, bydd diwygiadau'n cael eu gwneud i'r canllawiau anstatudol er mwyn rhoi eglurder ynghylch rhai o'r pwyntiau a wnaed drwy'r ymgynghoriad.

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn:
https://llyw.cymru/sefydliadau-ol-16-arbennig-annibynnol

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr opsiynau

Yr unig opsiwn, fel y nodir yn y memorandwm esboniadol, yw gwneud y ddeddfwriaeth oherwydd y gofynion cyfreithiol o dan adran 56 o Ddeddf 2018.

## 7. Costau a manteision

O ran y costau sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau hyn, byddant yn ymwneud â gweinyddu a chyhoeddi'r rhestr.

**Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol**
Bydd costau bychain i Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol sy'n gwneud cais i fod ar y rhestr, a fyddai'n cynnwys yn bennaf y gofyniad i lenwi'r ffurflen gais. Mae'r colegau arbenigol annibynnol hynny sydd â chytundeb ariannu eisoes yn gorfod ymgymryd â gofynion gweinyddol er mwyn cydymffurfio â'r cytundeb hwnnw. Mae gan tua 25 o golegau arbenigol annibynnol gytundeb ariannu ar hyn o bryd.

**Llywodraeth Cymru**
Bydd y costau ar gyfer cynnal y rhestr yn cael eu cynnwys yn y strwythur staff presennol. Y gost ar gyfer cynnal y rhestr fyddai tua 10% o amser Swyddogion Gweithredol, yn seiliedig ar gyflog sydd yng nghanol yr ystod cyflog (£37,775 gan gynnwys costau cysylltiedig) sy'n cyfateb i tua £3,800 bob blwyddyn ariannol.

Ceir adnoddau ychwanegol hefyd o ran monitro'r lleoliad yn ariannol. Ystyrir bod hyn eto'n gost ychwanegol fach iawn gan fod y gweithgaredd hwn eisoes yn cael ei wneud o dan y gofynion i'r colegau arbenigol annibynnol presennol gadw at amodau'r cyllid drwy'r Cytundeb Ariannu.

**Asiantaethau allanol (hy ESTYN)**
Bydd Estyn eisoes ynmonitro'r colegau arbenigol annibynnol hynny sydd wedi'u sefydlu'n barod, ac felly disgwylir i unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer ymgymryd â'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r rheoliadauhyn fod yn gostau bychain.

## 8. Yr Effaith ar Gyfiawnder

Rydym wedi cwblhau ffurflen nodi asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, sydd wedi cadarnhau bod effaith y rheoliadau hyn ar gyfiawnder yn isel iawn os o gwbl. Rydym yn cynnal y trafodaethau angenrheidiol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, er mwyn tawelu eu meddyliau am hyn.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

Gan fod y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar y sector busnes a/neu elusennau, y mae'r Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol hyn yn rhan ohono, mae hidlydd

asesu cystadleuaeth wedi'i gynnal. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal adolygiad ar ôl gweithredu o'r system ADY newydd (gan gynnwys y gofynion a amlinellir yn Rheoliadau'r Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) a fydd yn ffurfio rhan o fodel monitro a gwerthuso cyffredinol Llywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried y broses weithredu fesul cam. Yn benodol:

- parodrwydd – asesu i ba raddau y mae asiantaethau cyflenwi wedi paratoi ar gyfer y newidiadau;
- cydymffurfedd – monitro pa mor effeithiol y mae sefydliadau'n glynu wrth y gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y byddant yn dod i rym; a
- effaith – gwerthuso i ba raddau y mae'r newidiadau polisi deddfwriaethol a'r newidiadau ehangach yn cael eu hymgorffori ac yn cael effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr.

Caiff y dull hwn o fonitro cydymffurfedd ac effaith a gwerthuso ei gefnogi ymhellach drwy drefniadau arolygu ac adolygu parhaus dan arweiniad Estyn.